

Beth glywon ni yn AdFest 2026



Ni yw Llais



Mae Llais yn golygu eich
llais yn Gymraeg.



Rydym am roi mwy o lais i
bobl Cymru yn y ffordd y
mae gwasanaethau iechyd a
gofal cymdeithasol yn cael
eu cynllunio yng Nghymru.



Roedd Llais yn AdFest 2026
i glywed beth sy'n bwysig i
bobl ag anableddau dysgu.

Ynglŷn ag AdFest



Mae AdFest yn ddigwyddiad a drefnir gan Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.

Mae Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn helpu pobl ag anableddau dysgu i:



- gael llais

Hawliau Dynol



- deall eu hawliau



- siarad am y pethau sy'n bwysig iddynt



Yn AdFest, siaradodd Llais â phobl ag anableddau dysgu, teuluoedd, gofalmwyr a sefydliadau cymorth.



Dywedodd pobl wrthym am eu profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Dywedon nhw hefyd wrthym sut roedd y gwasanaethau hyn yn gwneud iddynt deimlo.

Beth ddywedodd pobl wrthym



Mae pobl eisiau cael eu gwranddo arno

Dywedodd pobl ei bod yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn gwranddo arnynt ac yn siarad yn uniongyrchol â nhw.



Mae pobl eisiau:

- digon o amser i siarad



- esboniadau clir



- cael eu cymryd o ddifrif



Mae pobl eisiau mwy o ddewis ac annibyniaeth

Mae pobl eisiau mwy o reolaeth dros eu bywydau.




Mae hyn yn cynnwys:

- ble maen nhw'n byw



- y cymorth maen nhw'n ei gael



- penderfyniadau am eu dyfodol



Mae angen i wybodaeth fod yn haws ei ddeall

Dywedodd pobl y dylai gwybodaeth fod:



- yn glir



- yn hawdd ei ddarllen



- yn hawdd ei ddeal



Mae llawer o bobl eisiau mwy o wybodaeth mewn fformat Hawdd ei Ddarllen.



Gall cael help fod yn anodd

Dywedodd rhai pobl ei bod yn anodd:



- cael apwyntiad gyda meddyg



- cysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol




- cael cymorth pan fydd ei angen arnynt



Mae perthnasoedd da yn bwysig

Mae pobl eisiau cymorth gan bobl y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.



Pan fydd gweithwyr cymdeithasol neu staff cymorth yn newid yn aml, gall hynny beri gofid.



Gall mannau aros fod yn straen

Dywedodd rhai pobl y gall ystafelloedd aros fod:



- yn swnllyd



- yn brysur



- yn llethol

Gall hyn wneud i bobl deimlo'n bryderus.

Beth sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf?

Dywedodd pobl wrthym eu bod eisiau:



cael eu gwrando arno



dewis a rheolaeth



gwybodaeth Hawdd ei Ddarllen



cymorth cyson



gwasanaethau hygrych



cael eu trin fel oedolion



parch at eu hanghenion

Beth fydd Llais yn ei



Bydd Llais yn defnyddio'r hyn a ddywedodd pobl wrthym i helpu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.



Diolch i bawb a siaradodd â ni yn AdFest.